HEDDLU GWENT POLICE

STRATEGAETH Y GYMRAEG

2021 | 2025

EIN STRATEGAETH AR GYFER Y GYMRAEG

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent (Y Comisiynydd) a Phrif Gwnstabl Heddlu Gwent yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus dwyieithog. Mae hyn yn ategu gweledigaeth Comisiynydd y Gymraeg i'r iaith Gymraeg fod yn ganolog i fywyd bob dydd yng Nghymru, ac i greu cymdeithas lle y gellir defnyddio'r Gymraeg mewn nifer gynyddol o sefyllfaoedd.

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl dri nod strategol ar gyfer y Gymraeg dros y pedair blynedd nesaf:

- **gwella ystod y gwasanaethau Cymraeg a gynigir gennym ar hyn o bryd er mwyn ei gwneud yn haws i aelodau'r cyhoedd dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg**
- **cynyddu nifer y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg a gyflogir gennym i adlewyrchu canran y siaradwyr Cymraeg yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn ardal Gwent**
- **defnyddio'r wybodaeth rydym yn ei chael trwy waith monitro a ffynonellau eraill i'n helpu i ganfod meysydd lle gallwn wella ansawdd ein gwasanaethau Cymraeg a sgiliau Cymraeg ein swyddogion a staff.**

Mae'r Strategaeth hefyd yn amlinellu sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn bwriadu cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae copïau o'r Hysbysiadau Cydymffurfio sy'n rhestru'r Safonau perthnasol yn llawn i'w gweld ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (Swyddfa'r Comisiynydd) a gwefan Heddlu Gwent.

Mae'r Strategaeth hon yn ategu nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd, lle mae'r ganran o bobl sy'n siarad Cymraeg wedi'i chynnwys fel dangosydd cenedlaethol. Mae hefyd yn ategu strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, Cymraeg 2050.

Er mwyn cyrraedd ein nodau strategol, rydym wedi penderfynu ar dri phrif amcan i'w cyflawni dros y pedair blynedd nesaf.

	PRIF AMCANION	SUT Y BYDDWN YN GWNEUD HYN
1	**Ymgysylltu'n effeithiol â siaradwyr a dysgwyr Cymraeg er mwyn llywio'r gwasanaeth a ddarperir gennym**	• Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau Cymraeg yn y gymuned i glywed barn siaradwyr Cymraeg yng Ngwent ac ymgysylltu â nhw • Ymgysylltu'n rhagweithiol â chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg a chydweithwyr sy'n dysgu Cymraeg i geisio cymorth ganddynt i ddarparu gwasanaethau plismona Cymraeg.
2	**Cynyddu nifer y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg a gyflogir gennym ar draws y ddau sefydliad**	• Rhoi mentrau gweithredu cadarnhaol ar waith sy'n targedu, cefnogi a datblygu darpar ymgeiswyr sydd â sgiliau Cymraeg • Darparu hyfforddiant Cymraeg ar gyfer pob un o'n personél a chefnogi cydweithwyr sydd am wella a defnyddio'u sgiliau Cymraeg ar bob lefel • Gweithio gyda'r holl bartneriaid perthnasol i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa i bobl ifanc • Codi ymwybyddiaeth ymysg cydweithwyr o werth sgiliau Cymraeg.
3	**Casglu data y gallwn eu defnyddio i wella ansawdd ein gwasanaethau Cymraeg**	• Cynnal a datblygu Cynlluniau Gweithredu'r Gymraeg a Phecynnau Cymorth Casglu Data ar gyfer pob adran • Defnyddio amrywiaeth o ddulliau i brofi ansawdd gwasanaethau Cymraeg sy'n bodoli a rhai newydd.

RÔL COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

Y Comisiynydd, ar y cyd â'r Prif Gwnstabl, sy'n gyfrifol am blismona yng Ngwent. Mae'r Comisiynydd yn sicrhau bod Heddlu Gwent yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol ac yn ceisio gwella perfformiad a safonau'r gwasanaethau a gyflenwir i gymunedau. Rhan o rôl y Comisiynydd yw sicrhau bod pobl leol yn lleisio'u barn ar y ffordd y mae eu hardal yn cael ei phlismona a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif.

RÔL Y PRIF GWNSTABL

Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am bob agwedd ar blismona gweithredol, gan gynnwys cyfarwyddo a rheoli swyddogion a staff Heddlu Gwent, ac am gyflenwi'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu'r Comisiynydd.

Nod Heddlu Gwent yw bod yn "Gyflogwr Delfrydol", yn sefydliad y mae pobl yn dewis gweithio iddo oherwydd y ffordd y cânt eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u hannog. Mae hyn yn cynnwys cefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

SAFONAU'R GYMRAEG

TREFNIADAU LLYWODRAETHU

Mae'r Comisiynydd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am oruchwylio Safonau'r Gymraeg i Brif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd. Mae'r Prif Weithredwr yn cael cefnogaeth gan Swyddog Polisi i sicrhau a monitro cydymffurfiaeth. Mae'r Dirprwy Gomisiynydd yn gweithredu fel yr arweinydd strategol ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am oruchwylio'r Safonau i'r Dirprwy Brif Gwnstabl. Mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn cael cefnogaeth gan Swyddog Polisi'r Gymraeg ac uwch swyddog sy'n gweithredu fel yr arweinydd gweithredol ar gyfer y Gymraeg.

Mae Cyfarfod y Gymraeg wedi cael ei sefydlu ar y cyd i fonitro cydymffurfiaeth barhaus gan Swyddfa'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Bydd y Bwrdd yn sicrhau y caiff y tri Phrif Amcan sy'n ymwneud â'r Nodau Strategol eu cyflawni hefyd.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu sut byddwn yn cydymffurfio â'r Safonau ar draws y ddau sefydliad.

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU

- Byddwn yn rhoi cyfarwyddyd i staff ar sut i ymateb i ohebiaeth, trefnu cyfarfodydd ac ateb y ffôn. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn y ddogfen 'Safonau'r Gymraeg - Canllaw i Staff' sydd wedi ei chyhoeddi ar ein mewnrwyd "Y Bît". Mae'r pynciau hyn yn cael sylw yn ystod y sesiwn hyfforddiant 'Cymraeg Lefel 1' sy'n orfodol ar gyfer ein holl weithwyr hefyd. Mae cardiau cynorthwyo gyda chyfarchion Cymraeg wedi cael eu gosod ar bob ffôn desg.
- Mae pob aelod o staff yn gorfod cwblhau hyfforddiant Cymraeg Lefel 1 sy'n esbonio'r broses ar gyfer cynnig dewis iaith i bobl sy'n ffonio ac i ymwelwyr.
- Mae ein templedi llythyr ac e-bost yn cynnwys datganiadau sy'n hysbysu'r cyhoedd ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.
- Atgoffir staff sy'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus bod rhaid i bob gwahoddiad fod yn ddwyieithog trwy gyfrwng y ddogfen 'Safonau'r Gymraeg - Canllaw i Staff' sydd wedi ei chyhoeddi ar ein mewnrwyd 'Y Bît'. Mae'r ddogfen yn esbonio'r broses ar gyfer trefnu cyfieithwyr ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus hefyd a chyfarwyddyd y dylai swyddogion sy'n cadeirio cyfarfodydd cyhoeddus atgoffa pobl ar ddechrau'r cyfarfod eu bod yn gallu cyfrannu yn Gymraeg.
- Caiff pob dogfen a gynhyrchir gennym at ddefnydd cyhoeddus ei chynhyrchu yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.



- Caiff negeseuon eu postio yn Gymraeg ar ein prif wefannau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol. Pan fydd aelodau'r cyhoedd yn cysylltu â ni yn Gymraeg, byddant yn derbyn ymateb yn Gymraeg (os oes angen ymateb).
- Mae pob arwydd newydd yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg mewn safle lle bydd yn cael ei darllen gyntaf.
- Caiff arwyddion eu gosod mewn ardaloedd derbynfa i roi gwybod y gall pobl gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
- Trwy ein sesiwn hyfforddiant Cymraeg Lefel 1 gorfodol a'r ddogfen 'Safonau'r Gymraeg - Canllaw i Staff' a gyhoeddir ar ein mewnrwyd 'Y Bît', caiff staff eu hysbysu bod gofyn iddynt gyfarch aelodau'r cyhoedd yn ddwyieithog ar y ffôn neu yn y dderbynfa. Mae hyfforddiant pwrpasol 'Sgiliau Cymraeg y Dderbynfa' yn cael ei ddarparu i staff sy'n gweithio ar y dderbynfa.
- Caiff pob arwydd a hysbysiad cyhoeddus ei gynhyrchu'n ddwyieithog.
- Caiff pob ffurflen grant yn Gymraeg ei hateb yn Gymraeg, a chaiff unrhyw gyfweliadau y mae eu hangen eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg (gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd os nad oes staff sy'n siarad Cymraeg ar gael).
- Ni fydd ein hunaniaethau corfforaethol priodol yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

SAFONAU LLUNIO POLISI

- Rhaid i staff sy'n gyfrifol am ddrafftio polisi newydd (neu ddiwygiadau i bolisi) ystyried effaith y polisi (neu'r diwygiad) hwnnw ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy gyfrwng asesiad o effaith ar Safonau'r Gymraeg sy'n rhan o'n gweithdrefn Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'n ofynnol bod Swyddog Polisi'r Gymraeg yn cyfrannu at yr asesiad hwn. Mae'r asesiad hwn yn helpu i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn meysydd busnes lle mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol hefyd.
- Os caiff dogfen ymgynghori y bwriedir iddi gynorthwyo'r gwaith o lunio polisi ei chyhoeddi, bydd Swyddog Polisi'r Gymraeg yn cynnal asesiad o effaith ar Safonau'r Gymraeg a bydd grwpiau ac unigolion sy'n siarad Cymraeg yn cael cyfle i gynnig sylwadau yn rhan o'r broses ymgynghori.
- Os caiff ymchwil y bwriedir iddo gynorthwyo'r gwaith o lunio polisi ei gomisiynu, byddwn yn sicrhau bod asesiad o effaith ar Safonau'r Gymraeg yn cael ei gynnal.
- Mae'r Comisiynydd wedi diwygio ei broses ymgeisio am gyllid grant er mwyn rhoi sylw dyledus i ofynion Safonau'r Gymraeg. Gofynnir i bob cais a chynnig a



dderbynnir esbonio sut bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn rhan o'r gweithgareddau a fydd yn cael eu cyllido, gan gynnwys wrth ddarparu gwasanaeth a marchnata a chyfathrebu gwasanaeth. Gofynnir i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth sydd wedi llywio lefel y gwasanaeth y bwriedir ei gynnig trwy gyfrwng y Gymraeg.

SAFONAU GWEITHREDU

- Rydym wedi cynhyrchu canllaw i staff ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a chaiff hwn ei gyhoeddi fel y polisi ‘Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol’.
- Byddwn yn cyflwyno prosesau Adnoddau Dynol lle y gofynnir i bob aelod o staff a yw am dderbyn ei gontract cyflogaeth yn Gymraeg.
- Byddwn yn gofyn i bob aelod o staff a yw am gael gohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, a/neu ei anghenion hyfforddiant, ac sydd wedi'i chyfeirio ato'n bersonol yn Gymraeg.
- Byddwn yn gofyn i bob aelod o staff a yw am gael dogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg, a byddwn yn darparu'r dogfennau yn Gymraeg os mai dyna'i ddymuniad.
- Byddwn yn gofyn i bob aelod o staff a yw am gael ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldebau o'r gwaith ac oriau gweithio hyblyg yn Gymraeg.
- Caiff meddalwedd gyfrifiadurol Gymraeg (ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg) ei darparu i bob aelod o staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg os mai dyna'i ddymuniad.
- Mae ein polisïau mewnol yn caniatáu i bob aelod o staff wneud cwyn yn Gymraeg, ac ymateb yn Gymraeg i unrhyw gŵyn a wneir amdano.
- Mae ein polisïau mewnol yn caniatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wnaed yn ei erbyn yn rhan o unrhyw broses ddisgyblu fewnol.
- Rydym yn y broses o gynnal asesiad o'r sgiliau Cymraeg ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd a swyddogion a staff Heddlu Gwent drwy broses hunanasesiad.
- Rydym yn hyrwyddo cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i gyflogeion dderbyn cyrsiau Cymraeg o lefel dechreuwr i lefel uwch.
- Mae ein templedi e-bost corfforaethol yn caniatáu i aelodau staff ychwanegu logo ‘Dwi'n siarad Cymraeg’ neu ‘Dwi'n dysgu Cymraeg’ at eu llofnod e-bost er mwyn hybu a hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

- Pan fyddwn yn asesu gofynion swydd newydd neu swydd wag, byddwn yn asesu'r angen am sgiliau Cymraeg. Ar hyn o bryd mae pob swydd yn nodi bod "Sgiliau Cymraeg Lefel 1 yn hanfodol" ac mae rhai swyddi'n nodi bod angen lefel sgiliau uwch yn y Gymraeg. Os ydym wedi nodi bod swydd yn gofyn am sgiliau Cymraeg ar lefel uwch na Lefel 1, bydd yr union lefel yn cael ei nodi pan gaiff y swydd ei hysbysebu. Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu yn ddwyieithog.
- Gellir cyflwyno pob cais am swydd yn Gymraeg ac ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na rhai a gyflwynir yn Saesneg.
- Gall ymgeiswyr ddewis cael cyfweliad am swydd naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Pan nad yw'n bosibl cael panel llawn o siaradwyr Cymraeg at ei gilydd, defnyddir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

SAFONAU CADW COFNODION

- Byddwn yn cadw cofnod o'r nifer o gwynion a gawn sy'n ymwneud â'n cydymffurfiaeth â'r safonau, a byddwn yn cyflwyno adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg bob blwyddyn. Byddwn hefyd yn cadw copi o gwynion o'r fath, ac unrhyw gwynion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
- O ran Heddlu Gwent, caiff unrhyw gŵyn o'r fath ei thrin drwy Weithdrefnau Safonau Proffesiynol presennol. Ceir rhagor o wybodaeth yma: https://www.gwent.police.uk/cy-GB/cysylltu-a-ni/af/cysylltu-a-ni/
- O ran y Comisiynydd, y Prif Weithredwr sy'n ymdrin â chwynion: https://www.gwent.pcc.police.uk/cy/tryloywder/cyhoeddiadau/
- Byddwn yn rhoi hyfforddiant i'n Hadran Safonau Proffesiynol ar ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â'n cydymffurfiaeth â'n safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi a safonau gweithredu. Bydd hyfforddiant cychwynnol yn cael ei ddilyn gan sesiynau priodol yn ôl yr angen, a gefnogir gan Swyddog Polisi'r Gymraeg.
- Trwy gyfrwng Cynlluniau Gweithredu Safonau'r Gymraeg adrannol, rydym yn cadw cofnod o'r camau rydym wedi eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio a nhw.
- Rydym yn cadw cofnod o nifer y cyflogeion sydd â sgiliau Cymraeg.
- Byddwn yn cadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a ddarparwyd yn Gymraeg ac, os darparwyd fersiwn Gymraeg o gwrs, y ganran o gyfanswm y staff a fynychodd y cwrs a oedd yn bresennol yn y fersiwn honno.

- Byddwn yn cadw copi o bob asesiad a gynhelir gennym o'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen ar gyfer swydd newydd neu swydd wag.
- Rydym yn cadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a oedd yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar wahanol lefelau.

SUT Y BYDDWN YN MONITRO AC YN ADRODD AR GYDYMFFURFIAETH

Bydd cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn parhau i gael ei fonitro gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl trwy eu Byrddau Rheoli perthnasol, yn ogystal â thrwy Gyfarfod y Gymraeg a'r Bwrdd Strategaeth Pobl.

Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn gwybodaeth am gydymffurfiaeth hefyd os gofynnir amdani.

ADRODDIAD BLYNYDDOL

Bydd y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn llunio Adroddiad Blynyddol, yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r ffordd y maent wedi cydymffurfio â'r safonau y mae dyletswydd arnynt i gydymffurfio â nhw.

Bydd yr adroddiadau blynyddol dwyieithog yn cael eu cyhoeddi cyn pen chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiadau'n berthnasol iddi.

Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r adroddiadau blynyddol a bydd copïau ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd a gwefan Heddlu Gwent, yn ogystal ag ym mhob un o'r swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.

YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi ymroi i ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd er mwyn gwrando ar eu syniadau ynghylch sut y gallwn wella'r gwasanaethau Cymraeg rydym yn eu darparu. Yn 2020, hwyluswyd y gwaith ymgysylltu hwn trwy ddigwyddiad Heddlu Gwent ‘Cymraeg - Ein Hiaith’. Mae'r sylwadau a'r syniadau a rannodd aelodau'r cyhoedd gyda ni yn y digwyddiad hwnnw wedi cael eu hymgorffori yn y Strategaeth hon a'n blaenraglen waith ar gyfer y Gymraeg.

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau a fydd yn ein helpu i wella. Os ydych yn teimlo y gallwch fod o gymorth gyda hyn, ac os hoffech fod yn aelod o Grŵp Cynghori Annibynnol Heddlu Gwent, cysylltwch â Swyddog Polisi’r Gymraeg. Gweler y manylion isod.

Os hoffech gynnig sylwadau mewn ffyrdd eraill, cysylltwch trwy gyfrwng ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, e-bost, llythyr neu ffôn.

MANYLION CYSWLLT

SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

Pencadlys Heddlu Gwent

Croesyceiliog

Cwmbrân

NP44 2XJ

01633 642 200

commissioner@gwent.pnn.police.uk

www.gwent.pcc.police.uk

Swyddog Polisi'r Gymraeg

Pencadlys Heddlu Gwent

Croesyceiliog

Cwmbrân

NP44 2XJ

07970 005 014

Cymraeg@gwent.pnn.police.uk

www.gwent.police.uk